

Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi **Tachwedd-Rhagfyr 2021**

Undeb Bedyddwyr Cymru
Oedfa Ilston 2021

'Ddoe a Heddiw: O John (Miles) i John (Derek Rees)' drwy gyfrwng Zoom ar **nos Fawrth, 2 Tachwedd 2021 o 7-8yh.**

Bydd yr Oedfa yn gyfle i ddysgu mwy am ein gwreiddiau Bedyddiedig yng Nghymru, ynghyd â'r gwaith o blannu eglwysi heddiw.

Dolen zoom: https://us06web.zoom.us/j/87089956529?pwd=OVhTczRXTFFRN2FhQTRMWktzRGtmQT09

Trefn Oedfaon y Cylch

Sul 7 Tachwedd

Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog—Cymun
Brynhafod	10.30 y bore	Ysgol Sul
Caersalem	2.00 y bore	Gweinidog – Cymun
Noddfa	3.30 y pnawn	Gweinidog—Cymun

Sul 14 Tachwedd

Aberduar	amser i'w gadarnhau	Sul y Cofio
Bethel	9.30 y bore	Gweinidog—Cymun
Seion (ym Mrynhafod)	1.30 y prynhawn	Gweinidog—Cymun

Parhau drosodd/...

Sul 21 Tachwedd

Noddfa	10.00 y bore	Rhys Bebb Jones
Aberduar	11.00 y bore	Ffred Ffransis
Brynhafod	2.00 y pnawn	Oedfa Deulu

Sul 28 Tachwedd

Aberduar	Dim oedfa	ymuno â Seion y pnawn
Bethel	10.15 y bore	Gweinidog
Seion a Brynhafod (yn Seion)	2.00 y pnawn	Gweinidog

Sul 5 Rhagfyr

Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog—Cymun
Brynhafod	10.30 y bore	Ysgol Sul
Caersalem	2.00 y pnawn	Gweinidog—Cymun
Noddfa	3.30 y pnawn	Gweinidog—Cymun

Sul 12 Rhagfyr

Aberduar	10.00 y bore	Doniau'r eglwys
Bethel	10.15 y bore	Oedfa Nadolig
Seion	1.30 y pnawn	Gweinidog—Cymun

Sul 19 Rhagfyr

Aberduar	10.00 y bore	Oedfa Nadolig yr ifainc
Brynhafod	2.00 y pnawn	Oedfa Nadolig y plant
Noddfa	5.00 yr hwyr	Oedfa Nadolig plant a'r ifainc

Dydd Nadolig—Sadwrn 25 Rhagfyr

Aberduar 9 o'r gloch y bore

Noddfa 10 o'r gloch y bore

CYMANFA BEDYDDWYR CAERFYRDDIN A CHEREDIGION

OEDFA URDDO'R LLYWYDD—
MRS ANN BOWEN MORGAN

CYNHELIR CYFARFOD
HANNER BLYNYDDOL YN NODDFA,
PRYNHAWN MAWRTH 9 TACHWEDD

1.30—CYNHADLEDD A THROSGLWYDDO'R
LLYWYDDIAETH I
MRS ANN BOWEN MORGAN

3.00—ANERCHIAD GAN CARWYN GRAVES,
SWYDDOG CYFATHREBU
UNDEB BEDYDDWYR CYMRU

4.00—TE YN FESTRI BRONDEIFI

5.30—PREGETH GAN Y PARCHG
JILL TOMOS, CYN-WEINIDOG
CYLCH BEDYDDWYR GOGLEDD TEIFI

Dewch yn gryno i gefnogi'r Gymanfa ac i fod yn gefn yn Ann ym mlwyddyn ei llywyddiaeth

I gyfarch Janet a Dewi ar ennill Medal Gee

Mae'n noson dra arbennig
I'n henwad annwyl ni,
Sef Dewi a hi, Janet,
Yn ennill medal Gee.
Fel cyd-aelodau iddynt
Sydd yma ger eu bron,
Mae'n bleser eu llongyfarch
Ar y noson sbesial hon.

Bu'r ysgol Sul yn ffodus
Ar hyd blynyddoedd maith
O gael arweiniad Dewi
I gario mlaen â'r gwaith.
Roedd pasiant y Nadolig
A'r gwasanaethau i gyd
Yn werth eu gweld bob amser,
A hynny'n wir o hyd.

Mi oedd bob amser wrthi
A'i gamra ym mhob man,
Ac yn recordio'r cyfan
Wrth iddynt wneud eu rhan.
Mi ddaeth yn ddiacon ifanc
Yn bump ar hugain oed,
A nawr mae mor frwdfrydig
Â fuodd ef erioed.

A Janet hithau hefyd
Sy'n cael y plant ynghyd
Bob wythnos ers blynyddoedd
A'u dysgu hwy i gyd.
Mae Noddfa yn dra lwcus
O'i gwaith arbennig hi
A'r ysgol Sul bob amser
Yn llawn o hwyl a sbri.

Mae'n paratoi'r Diolchgarwch
A'r Nadolig yn ei dro,
A dathlu'r Pasg bob blwyddyn
'Da'r ieuenctid yn y fro.
Mae wedi bod yn ffyddlon
I'r Urdd ar hyd ei hoes
A'r plant i gyd yn gwrando,
Heb feddwl tynnu'n groes.

Nid pawb sy'n dathlu'r dwbwl,
Ond dyna a wnawn ni,
A llongyfarchiadau gwresog
I'r ddau ohonoch chi.
Gobeithio y cewch iechyd
I gario mlaen â'r gwaith
I ddysgu plant yr ardal
Yn wir am gyfnod maith.